# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-18-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mehefin 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
| --- | --- |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-17-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Dywedodd y Cadeirydd fod eitemau 5 a 6 ar yr Agenda yn debyg o gymryd cryn amser i'w trafod ac awgrymodd felly y dylid symud rhag blaen i ystyried y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1106 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Adennill Costau) (Cymru) 2005

Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried yr Offeryn Statudol yma a'i gymeradwyo yn ei gyfarfod yr wythnos flaenorol. Y cyfan a oedd wedi'i newid oedd y dyddiad y deuai'r Rheoliadau i rym ac roedd yr adroddiad clir y cytunwyd arno o'r blaen yn parhau'n ddigyfnewid. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

### 4.2 LC1103 - Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005

Roedd yr Offeryn Statudol yma i fod i gael ei ystyried o dan "Unrhyw Fusnes Arall " (Eitem 7 ar yr Agenda), ond awgrymodd y Cadeirydd y dylid dod â'r mater ymlaen, a hynny am ei fod yn debyg i LC1106, gan fod yr Aelodau wedi'i drafod a'i gymeradwyo heb sylwadau yn y cyfarfod yr wythnos flaenorol a bod adroddiad y Pwyllgor wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad. Unwaith eto, roedd y dyddiad y deuai'r Gorchymyn i rym wedi'i newid ac felly roedd angen i'r Pwyllgor ail-gadarnhau'r adroddiad. Cytunodd yr Aelodau.

### 4.3 LC1108 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol)

**(Cymru) 2005**

Nododd yr Aelodau y cyfeiriad at y ffaith bod pwer i wrthod apêl wedi’i hepgor, a nodwyd o dan Sylwadau yn yr adroddiad drafft, ac roedden nhw’n gofidio y gallai hynny beri anawsterau i’r panel. Gan nad oedd tystiolaeth ynghylch faint o apelwyr fyddai’n methu cydymffurfio â’r gofyniad, doed dim modd gwybod a fyddai hyn yn broblem. Cytunwyd tynnu sylw’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes at y mater a gofyn iddyn nhw gadw llygad ar sut y byddai’r Offeryn Statudol yma’n gweithio. Camau i’w cymryd: Y Cadeirydd/ Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

4.4 Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.5 LC1111 - Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005**

Nodwyd gwall sillafu bach yn fersiwn Cymraeg yr adroddiad drafft ar y Rheoliadau yma. Cyhyd ag y câi hwnnw ei gywiro, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

**4.6 LC1113 - Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2005**

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Cyfreithiol egluro’r gwahaniaeth rhwng defnyddio’r geiriau "will" a "must" mewn Offerynnau Statudol. Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol y gallai’r gair "will" olygu naill ai gorchymyn neu fynegiant syml o fwriad at y dyfodol, ond mai dim ond un ystyr oedd i’r ferf "must", a oedd yn well ar gyfer deddfwriaeth. Ymhellach, gallai defnyddio’r ferf "will" greu problemau ar gyfer y cyfieithiad Cymraeg, gan nad oedd yn cyfieithu mor ddidrafferth â "must". Gan hynny, roedd yn well defnyddio’r ferf "must" mewn Offerynnau Statudol. Roedd yr Aelodau’n fodlon ar yr esboniad a chytunwyd y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.7 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1109 - Rheoliadau Priffyrdd (Ysgolion) (Gorchmynion Dileu Arbennig a Gwyro Arbennig) (Cymru) 2005**

**LC1110 - Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2005**

**LC1112 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005**

**LC1114 - Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005**

**LC1115 - Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005**

**LC1116 - Rheoliadau Ombwdsmon Tai Cymdeithasol (Cymru) 2005**

**LC1117 - Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005**

## Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor

Ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart AC, i adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 (LC1084)

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod nhw ar 10 Mai wedi ystyried "Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 (LC1084)". Er nad oedd yna bwyntiau a oedd yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7, roedd y Pwyllgor wedi nodi o dan Sylwadau fod gan bob cwmni rifau wyth digid yn y Gofrestr Cwmnïau, ond mai dim ond un cwmni yn y rhestr yn yr Offeryn Statudol yma oedd â'r rhif cyflawn. Er bod adroddiad y Pwyllgor wedi dweud bod y newidiadau hyn mor fân nes y gallent gael eu cywiro wrth gyhoeddi'r Gorchymyn, dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Gweinidog wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor ac wedi anfon ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor. Ychwanegodd y Cadeirydd mai dyma'r tro cyntaf ers i'r Pwyllgor ddechrau ei waith i unrhyw Weinidog ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor heb gael cais i wneud hynny a bod ymateb y Gweinidog yn arbennig o werthfawr gan ei fod yn cyfeirio at sylw ac nid at bwynt a fu'n destun adroddiad.

5.2 Nododd yr Aelodau fod yna ddadleuon cwbl barchus ar y ddwy ochr ond, gan fod y Gweinidog wedi meddwl ei bod yn ddigon pwysig i ysgrifennu at y Pwyllgor, y byddai'n derbyn barn y Gweinidog. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog i ddiolch iddi am ei diddordeb yn sylwadau'r Pwyllgor ac i fynegi boddhad y Pwyllgor ar yr esboniadau a roddwyd ganddi. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/ Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

## Eitem 6: Craffu ar y Papur Gwyn: Trefn Lywodraethu Well i Gymru

Ystyried goblygiadau'r Papur Gwyn ar gyfer gwaith y Pwyllgor Deddfau

6.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y Papur Gwyn ar ddyfodol y Cynulliad wedi'i gyhoeddi ac y byddai'r cynigion ynddo yn dwyn goblygiadau pwysig ar gyfer gwaith y Pwyllgor Deddfau. Aeth ymlaen i roi gwybod i'r Aelodau ei fod e, fel Cadeirydd y Pwyllgor, wedi'i wahodd i gyflwyno tystiolaeth i bwyllgor craffu.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Cyfreithiol wedi paratoi Nodyn i danlinellu'r materion i'w hystyried a bod y Nodyn wedi'i gylchredeg i'r Aelodau. Gwahoddodd yr Aelodau i fynegi eu barn ar y mater.

6.2 Wrth drafod, cafodd y pwyntiau canlynol eu gwneud:

- O ran statws y Pwyllgor Deddfau, nodwyd bod Deddf Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol bod gan y Cynulliad bwyllgor i graffu ar is-ddeddfwriaeth, ond mai'r Pwyllgor Archwilio fyddai'r unig un i gael ei grybwyll yn y Mesur yn ôl cynnig y Llywodraeth. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig dileu pob darpariaeth a oedd yn ymwneud â phwyllgorau, heblaw'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng y pleidiau. Byddai popeth arall yn cael ei adael i gael ei benderfynu gan y Cynulliad drwy gyfrwng ei Reolau Sefydlog. Mynegwyd y farn y dylai'r Rheolau Sefydlog newydd gadw'r gofyniad bod rhaid cael pwyllgor i graffu ar ddeddfwriaeth a diogelu statws y Pwyllgor drwy nodi darpariaethau ynglyn â chydbwysedd y pleidiau/aelodaeth, gan gynnwys na châi Gweinidog fod yn aelod ac na châi'r cadeirydd fod yn aelod o'r blaid fwyaf yn y llywodraeth;

- Nodwyd nad oedd y Mesur wedi'i gyhoeddi hyd yn hyn a'i bod yn rhy gynnar felly i gyflwyno unrhyw argymhellion pendant ynghylch datblygu gwaith/rôl y Pwyllgor. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd Cyfreithiol ymchwilio i gylch gwaith/rhychwant y pwyllgorau cyfatebol mewn gweinyddiaethau eraill, hynny yw yn yr Alban, San Steffan a Gogledd Iwerddon. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried barn Comisiwn Richard yn hyn o beth. Penderfynwyd dychwelyd i drafod y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 12 Gorffennaf 2005. Camau i'w cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

## Camau i'w cymryd

4.5 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i dynnu ei sylw at y broblem a danlinellwyd o dan "Sylwadau " yn adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar LC1108 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005

5.2 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog i ddiolch iddi am ei diddordeb yn sylwadau'r Pwyllgor ynghylch "Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 (LC1084)" ac i fynegi boddhad y Pwyllgor ar yr esboniadau a roddwyd ganddi. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/ Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc.

6.2 Gofynnwyd i'r Cynghorydd Cyfreithiol ymchwilio i gylch gwaith/rhychwant y pwyllgorau cyfatebol yn yr Alban, San Steffan a Gogledd Iwerddon a gofynnwyd i'r Clerc gylchredeg ei nodyn ar y pwnc i gael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfau ar 12 Gorffennaf 2005. Camau i'w cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

## Eitem 7: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 5 Gorffennaf 2005.